**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD EDC-05-99(Min)**

**COFNODION DRAFFT**

**Dyddiad:** 15 Medi 1999

**Amser:** 09:00 -13:00

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol: Aelodau** (Etholaeth)

Val Feld (Cadeirydd) Dwyrain Abertawe

Rhodri Morgan (YC) Gorllewin Caerdydd

Ron Davies Caerffili

Michael German Dwyrain De Cymru

Phil Williams Dwyrain De Cymru

Helen Mary Jones Llanelli

Brian Hancock Islwyn

Glyn Davies Canolbarth a Gorllewin Cymru (yn dirprwyo ar ran Alun Cairns)

John Griffiths Dwyrain Casnewydd

(yn dirprwyo ar ran Ann Jones)

**Gwahoddwyd i fod yn bresennol**

Mr Paul Loveluck (Eitem 2) Prif Weithredwr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Mr Roger Thomas (Eitem 2) Rheolwr Cyffredinol, Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd

Mr Alex McGillivray (Eitem 2) Sefydliad Economaidd Newydd

Mr David Rowe-Beddoe (Eitem 4) Cadeirydd WDA

Mr Brian Willott (Eitem 4) Prif Weithredwr WDA

Mr Alan Morgan (Eitem 4) Cyfarwyddwr, Datblygu Busnes,

WDA

Mr Steve Hill (Eitem 4) Prif Ymgynghorydd Economaidd, WDA

**Swyddogion**

Derek Jones Uwch-gyfarwyddwr Materion Ewropeaidd

Michael Cochlin Cyfarwyddwr y Grðp Datblygu Economaidd

Steve Phillips Pennaeth Yr Adran Datblygu Rhanbarthol

**Ysgrifenyddiaeth**

Helen Usher Clerc

Jo Trott Dirprwy Glerc

**1. Ymddiheuriadau a Dirprwyon**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alun Cairns ac Ann Jones. Roedd Glyn Davies yn dirprwyo ar gyfer Alun Cairns a John Griffiths yn dirprwyo ar gyfer Ann Jones (o dan Rheol Sefydlog 9.13)

**2. Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

2.1 Y Cadeirydd:

- croesawodd aelodau'r Pwyllgor yn ôl ar ôl y gwyliau.

- croesawodd John Griffiths a Glyn Davies;

- llongyfarchodd Derek Jones ar gael ei benodi'n Uwch-gyfarwyddwr Materion Economaidd; a

- chyflwynodd ddau ddirprwy glerc newydd y Pwyllgor (Jo Trott a Joanne Glenn), fydd yn rhannu'r

swydd.

2.2 Codwyd dau fater o drefn:

- y byddai'r cyfarfod yn para am bedair awr (hyd 1:00pm), ond dywedodd Helen Mary Jones fod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno na fyddai cyfarfodydd Pwyllgorau yn parhau ar ôl 12.30pm (er mwyn galluogi'r pleidiau gwleidyddol i gynnal eu cyfarfodydd am 12:30pm);

- mynegwyd pryder hefyd bod yr agenda yn rhy faith a bod yr amser ar gyfer y cyfarfod wedi'i ymestyn hyd 1:00pm, gan fod amserlenni tynn gan yr holl eitemau ar yr agenda ac roedd rhaid trafod bob un ohonynt. Gan y byddai'n rhaid i rai o'r Aelodau adael am 12:30pm cytunwyd y byddai'r eitem ar ETAG yn cael ei ailosod o dan yr eitem ar y gyllideb

**3. Eitem 1: Adroddiad Llafar Ysgrifennydd y Cynulliad**

3.1 Mynegodd Ysgrifennydd y Cynulliad y safbwynt bod Cymru, yn ôl pob golwg, wedi osgoi'r gwaethaf o ran y dirwasgiad a ragwelwyd. Mae'n ddigon posibl i Gymru ddioddef dirwasgiad ar ryw adeg, ond bellach nid oedd yn debygol o fynd i'r wal yn gyfan gwbl.

3.2 Roedd rhywfaint o newydd drwg i'w gyhoeddi, yn cynnwys y diswyddiadau sylweddol diweddar yn y diwydiant dillad (yn arbennig Bairdwear), a cholled 300 o swyddi contract tymor byr yn British Aerospace. Ar y llaw arall roedd rhywfaint o newydd da - roedd 3 o'r 5 prif fater buddsoddi mewnol wedi'u datrys:

- Roedd ASAT yng Nghrymlyn a Newport Wafer Fab yng Nghasnewydd ill dau wedi cael eu prynu gan eu rheolwyr;
- Byddai Lansing Lide (cynhyrchydd wagenni fforch godi arall sydd ar hyn o bryd wedi'i leoli yn y Coed-duon) yn ymsefydlu yn ffatri wagenni fforch godi Halla ym Merthyr).

3.3 Roedd hyn yn golygu nad oedd y materion a oedd yn ymwneud ag ACER yng Nghaerdydd a ffatri lled-ddargludyddion LG yng Nghasnewydd wedi'u datrys.

3.4 Cymeradwyodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y WDA (a Thîm Cymru) hefyd, ar eu llwyddiant gyda denu Mitsui Kinzoku i Gapel Hendre, Rhydaman, Gorllewin Cymru, a fyddai'n creu 220 o swyddi.

3.5 O ran effaith codi'r gyfradd llog 1/4% ar economi Cymru, ym marn yr Ysgrifennydd Cynulliad, os oedd yn iawn i'r DU yna roedd yn debygol o fod yn iawn i Gymru (gan mai'r DU yw marchnad fwyaf Cymru).

3.6 Gofynnodd yr aelodau am wybodaeth ar y tueddiadau mewn swyddi gweithgynhyrchu.

3.7 O ran pa fath o becynnau cefnogaeth yr oedd gwledydd eraill yn eu cynnig i fewnfuddsoddwyr

posibl o'r tu allan, ychydig o gyfyngiadau y byddai'r UE yn ei roi ar yr hyn y gellid ei gynnig gan, er enghraifft, Valencia, ond byddai nifer sylweddol o gyfyngiadau ar yr hyn y gellid ei gynnig gan Cologne.

***Gweithredu***

***Aelodau***

- Aelodau i hysbysu'r Cadeirydd ymlaen llaw o unrhyw faterion penodol y maent yn dymuno i'r Ysgrifennydd Cynulliad eu trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

***Swyddogion***

- Mr Derek Jones i ddarparu'r ffigurau diweddaraf ar newidiadau yn lefelau cyflogaeth, fesul sector os yn bosibl.

**4. Diweddariad gan Ysgrifenyddiaeth y Tasglu Ewropeaidd**

4.1 Hysbysodd Michael Cochlin y Pwyllgor o'r datblygiadau diweddaraf wrth i'r Tasglu baratoi ei gynigion ar gyfer defnyddio Cyllid y Cronfeydd Strwythurol.

4.2 Byddai'r Tasglu yn cyfarfod ar 28 Medi er mwyn cwblhau ei gynigion i'w hystyried gan y Cynulliad. Câi'r rhain eu cyflwyno ynghyd ag adroddiad ar ganlyniadau ymarfer ymgynghori'r Tasglu â'r cyhoedd, ar ddiwedd y mis.

4.3 Roedd y Comisiwn Ewropeaidd wedi awgrymu y dylai Cymru ganolbwyntio ar adnabod blaenoriaethau a'r lefelau ariannu cysylltiedig, ar hyn o bryd. Ni fyddai angen rhannu'r arian rhwng y mesurau. Ni fyddai angen rhannu'r arian rhwng mesurau. Felly byddai'r dogfennau sydd i'w cyflwyno i'r Cynulliad ychydig yn wahanol i'r rheini a gyflwynwyd ar gyfer y broses ymgynghori.

4.4 Cafodd y pwyntiau canlynol eu gwyntyllu mewn trafodaeth:

- Gallai'r Comisiwn Ewropeaidd bwyso i gael cyfraniad mwy gan y sector preifat nag ar y rhaglenni blaenorol. Fodd bynnag byddai hyn yn destun trafodaeth gyda'r bwriad o sicrhau ateb a fyddai'n adlewyrchu'r sefyllfa yng Nghymru.
- Ynglþn â gweithredu, byddai'r Tasglu'n argymell ysgrifenyddiaeth newydd wedi'i

ei chanoli, ar ffurf asiantaeth, fyddai'n disgyn o fewn cwmpas y Cynulliad ac yn

cael ei ffurfio trwy gyfuno WEPE a rhai o ddyletswyddau presennol y Cynulliad. Yn

ganolog i'r cynigion fyddai ymrwymiad i bartneriaethau ar lefel genedlaethol,

rhanbarthol a lleol. Byddai argymhellion y Tasglu ar weithredu wedi'u cwblhau ar 28

Medi. At ddibenion y Comisiwn, nid oedd raid i'r ddogfen siarad ond yn gyffredinol ar hyn

o bryd, gan wneud dim mwy na dangos ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth.

- Byddai adnabod sectorau allweddol o fewn diwydiant i dderbyn cymorth arbennig yn fater i'r Pwyllgor ei drafod yng ngoleuni argymhellion y Tasglu.
- Ar hyn o bryd roedd y Tasglu yn mynd i'r afael â mater targedau rhanbarthol dibynadwy.
- Byddai'n rhaid dod i gytundeb yn gymharol fuan ar yr hyn a fyddai'n mynd i'r Comisiwn Ewropeaidd ar Amcan 2. Gellid disgwyl penderfyniad y Comisiwn tua diwedd y flwyddyn.
- Ynglþn â chymhorthion gweithredu, roedd swyddogion yn edrych ar y rhyddid a geir yn

Rheoliadau'r UE i roi cymorth i gwmnïau yn ardaloedd Amcan 1. Yn ogystal, roeddynt

yn archwilio mesurau a fabwysiadwyd mewn gwledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd.

***Crynodeb y Cadeirydd***

4.5 Pwysleisiodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig iawn i'r Pwyllgor beidio ag arafu eu trafodaethau, er gwaethaf diddordeb y Comisiwn mewn strategaeth yn hytrach na manylion ar hyn o bryd.

4.6 Cadarnhaodd y byddai'r Pwyllgor yn ailedrych ar bob un o'r materion hyn yn fanylach yn ystod y cyfarfodydd nesaf. O arwyddocâd arbennig oedd mater gweithredu - neges oedd yn cael ei chyfleu'n glir yn y Sioeau ar Daith rhanbarthol.

***Gweithredu***

***Swyddogion***

Mr Derek Jones i ddarparu papur ar gymhorthion gweithredu.

**5. Eitem 2: Strategaeth Datblygu Cenedlaethol a Dogfen Rhaglen Amcan 1: Cynaliadwyedd**

5.1 Datganodd Mr Brian Hancock fuddiant (roedd yn Gyfarwyddwr cwmni ymgynghori bychan a oedd yn gweithredu ym maes iechyd a diogelwch a materion amgylcheddol).

***Mr Roger Thomas, Rheolwr Cyffredinol, Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd***

5.2 Dywedodd Mr Thomas ei fod wedi cyfrannu at y Tasglu. Croesawodd y cyfle i gynnwys yr amgylchedd mewn cynlluniau strategol ochr yn ochr â'r economi a blaenoriaethau cymdeithasol. Nododd fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn cefnogi'r newid i agwedd fwy strategol tuag at weithredu ac fe gymhellodd y Cynulliad i fabwysiadu'r cysyniad o fframwaith cynaliadwyedd; ac o fewn y fframwaith hwnnw y gellid gwneud pob penderfyniad, boed yn economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol neu amgylcheddol. Dylai gwahanol dargedau gael eu pennu ar gyfer gwahanol ardaloedd.

5.3 Roedd am ganolbwyntio ar dri phwynt allweddol:

- Ni nodwyd cynaliadwyedd fel amcan. Roedd gan Amcan 1 dair thema economaidd a dwy

thema gymdeithasol a dylai bod o leiaf un ar gyfer yr amgylchedd. Nododd ystod o

amcanion amgylcheddol positif o dan y Mesurau a dylid cysylltu'r rhain â'r Weledigaeth

a'r amcan Datblygu Cynaliadwy. Dylai gefnogi'r pwyslais ar y flaenoriaeth i ddatblygu

ansawdd bywyd pobl Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

- Dylai strategaeth amgylcheddol Amcan 1 gyd-fynd ag amcanion eraill y Rhaglen.
- Roedd angen i brosesau gweithredu sicrhau bod y penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud yn cynrychioli'r penderfyniadau gorau gan gymryd ffactorau amgylcheddol i ystyriaeth. Roedd angen i benderfyniadau ystyried y tymor hir yn ogystal â'r tymor byr. Dylai pob mesur ddangos yn glir ei gyfraniad at yr economi, cymdeithas a'r amgylchedd. Roedd angen fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau anodd pan fyddai safbwyntiau croes i'w gilydd.

***Mr Paul Loveluck, Prif Weithredwr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru***

5.4 Nododd Mr Loveluck fod Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cytuno'n gyffredinol â safbwyntiau Asiantaeth yr Amgylchedd.

5.4 Roedd CCGC yn pryderu bod yr Offeryn Ariannol yn cyfeirio at angen am roi sylw i'r amgylchedd a'r economi "ar yr un pryd". Roedd yn cwestiynu i ba raddau yr oedd hyn wedi'i gyflawni ac yn cymell y Pwyllgor i fabwysiadu datblygu cynaliadwy fel y prif amcan.

5.5 O ran Amcan 1, roedd CCGC ar y cyfan yn fodlon ar y ddogfen ond roeddynt yn cymell y Pwyllgor i edrych ar dargedau cynaliadwyedd llywodraeth y DU. Nid oedd angen i dargedau Cymru fod yn union yr un fath ond fe ddylent fod yn gyson â'r lleill.

5.6 O ran y Strategaeth Datblygu Cenedlaethol, roedd CCGC yn pryderu ynglþn â'r canlynol:

- Roedd y targedau Cynnyrch Domestig Crynswth yn dra uchelgeisiol a gellid colli materion amgylcheddol yn y ras am dwf. Gellid disgrifio twf economaidd yn well yn nhermau 'ceisio optimeiddio graddfa twf economaidd' yn hytrach na'r derminoleg bresennol - twf economaidd 'uchel a sefydlog' heb roi ystyriaeth i gynaliadwyedd.
- Nid oedd y targedau'n ymdrin â'r anghydraddoldebau presennol rhwng y rhanbarthau.
- Nid oedd y ffigyrau ar gyfer twf traffig yn gynaliadwy.
- Nid oedd y diwydiant amaeth yn gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol.
- Dylid rhoi ystyriaeth i'r elfen ofodol, gan gyfeirio at "Ganllawiau Cynllunio Cymru".

5.7 Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynglþn â sut i gydbwyso'r gofynion monitro gweddol soffistigedig yn erbyn yr angen am gyflymder a maint a gyflwynwyd gan y cyfle hwn, fe gyfeiriwyd y Pwyllgor at y canllaw drafft 'cam wrth gam', sydd ar hyn o bryd ar ganol y broses ymgynghori. Pwrpas hwn oedd sicrhau bod y wybodaeth ar gael i bawb.

***Mr Alex McGillivray, Sefydliad Economaidd Newydd***

5.8 Roedd y Sefydliad Economaidd yn sefydliad elusennol newydd a ddisgrifir, ymhlith pethau eraill, fel hwylusydd datblygu cymunedol, pwyllgor ystyried, ac ati.

- Roedd y Sefydliad yn pryderu bod pob un o'r tair dogfen yn cynnwys cymysgedd anghyffyrddus o agweddau o'r gwaelod i fyny ac o'r pen i lawr. O ganlyniad, ni theimlid bod gweledigaeth gynhwysfawr o ble roedd Cymru am fynd.

- Er mwyn pontio'r bwlch rhwng y ddwy agwedd, roedd angen dod i ddeall yn well sut yr oedd economïau lleol yn gweithio. Roedd hwn yn faes cymharol newydd ac nid oedd llawer o dystiolaeth i seilio casgliadau arni. Felly, efallai y dymuna'r Pwyllgor ystyried cynnwys astudiaeth o economi lleol yn ei gynigion. Gellid defnyddio canlyniadau'r astudiaeth i lywio penderfyniadau cyllido yn y dyfodol.

- Tynnwyd sylw at y ffaith mai mentrau micro yn yw'r rhan o economi Cymru sy'n tyfu gyflymaf ond serch hyn ychydig iawn o sôn a fu amdanynt yn y dogfennau (ac mewn mannau fe wnaed hynny mewn ffordd sarhaus). Roedd mentrau micro angen tri pheth penodol: cadw eu hysbrydoliaeth yn fyw; cael defnyddio'r mathau addas o adnoddau; ac i gynnal eu perthynas gyda busnesau eraill.

- Cymhellwyd y Pwyllgor i ailystyried ei ddealltwriaeth o "enillwyr" economaidd, a chyfeiriwyd yr aelodau at waith Charles Leadbetter ar y pwnc.

- Dylai pobl leol gael eu cynnwys yn y broses pryd bynnag y bo hynny'n bosibl. Roedd cyfoeth o

syniadau arloesol y gellid manteisio arnynt.

- Mynegwyd pryder ynglþn â gwahaniaethu rhwng ardaloedd trefol a gwledig ac i ba raddau y gwneir hyn. Byddai'n ddymunol ceisio lleihau'r gwahaniaethau hyn yn hytrach na'u hybu, gan atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng cymunedau gwledig a threfol. Roedd angen ailystyried y diffiniadau o 'wledig' a 'threfol.'

- Ynglþn â mater targedau, mynegwyd pryder ynglþn â'r cyfeiriad at dwf economaidd uchel a sefydlog. Nid oedd yr un wlad erioed wedi'i gyflawni ac nid oedd yr UE ei eisiau. Yn wir, roedd yr UE yn cydnabod nad oedd yn ddangosydd dibynadwy. Roedd hi'n bosibl mesur ansawdd bywyd heb gyfeirio at y Cynnyrch Domestig Crynswth .

***Crynodeb y Cadeirydd***

5.9 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am eu cyfraniad gwerthfawr iawn.

5.10 Wrth grynhoi dywedodd fod datblygu cynaliadwy yn amcan yr oedd y Pwyllgor yn ei gymeradwyo'n llawn.

5.11 Yn arbennig, byddai'r Pwyllgor yn ystyried ymhellach y materion canlynol:

- Sut y gellid cynnwys datblygu cymdeithasol ac amgylcheddol fel amcan allweddol

- Pa dargedau y dylid eu pennu, ac ai'r Cynnyrch Domestig Crynswth ddylai fod y prif linyn mesur

- Sut y dylid gosod y Targedau gyda'r targedau a bennwyd gan gyrff megis Cyngor Cefn

Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, a thargedau'r DU.

- Sut oedd economïau lleol yn gweithio a photensial y rhain.

- Sut y dylid cefnogi mentrau mân.

- Yr angen i sicrhau bod y strategaeth yn iawn ar gyfer Cymru gan gydnabod bod Cymru

yn rhanbarth o fewn y DU.

- Y swyddogaeth y gallai canllawiau cynllunio eu chwarae (yn amodol ar ganlyniad trafodaethau'r Cabinet yngLþn â'r modd y dylid ymdrin â hyn)

**6 Eitem 4: Awdurdod Datblygu Cymru**

6.1 Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o Awdurdod Datblygu Cymru

***Mr David Rowe-Beddoe, Cadeirydd***

6.2 Diolchodd Mr Rowe Beddoe i’r Pwyllgor am y cyfle i siarad gan ddweud ei fod yn edrych ymlaen at sefydlu perthynas strategol bwysig gydag ef.

6.3 Rhoddwyd crynodeb o berfformiad yn erbyn targedau, gyda chyfeiriad penodol at lwyddiant yr Awdurdod wrth gyrraedd targedau perfformiad ym 1998-99. Roedd eu cynllun corfforaethol ar hyn o bryd yn destun ymgynghori (ar flaenoriaethau ar gyfer 2000-2003). Byddai adroddiad yn cael ei anfon at y Pwyllgor cyn bo hir.

6.4 Mae Awdurdod yn edrych ymlaen at atgyfnerthu’r NEDS gan y caiff ei ddyfodol ei ffurfio yn bennaf gan y strategaeth a fabwysiadir. Mae’r Awdurdod yn cydnabod y bydd y Strategaeth bron yn sicr o olygu bod angen i bob partner newid ei feddylfryd a dulliau gweithredu. Mae’r WDA yn edrych ymlaen at chwarae rhan bwysig yn y newid hwn.

6.5 Yn dilyn hyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau o’r llawr ac fe wnaed y pwyntiau canlynol:

- Roedd y WDA yn ceisio’n fwriadol hyrwyddo’r cysyniad o weithio mewn partneriaeth. Mae’r Fforymau Economaidd a sefydlwyd gan yr Asiantaeth yn allweddol yn hyn o beth.

- Roedd y WDA yn cymryd camau i sicrhau y caiff cynaliadwyedd ei osod yn y brif ffrwd.

- Gofynnwyd cwestiynau ynglþn â thriniaeth materion cyfleoedd cyfartal. Polisi’r Asiantaeth yw eu gosod yn y brif ffrwd. Fodd bynnag, mae perygl gwirioneddol na fydd neb yn gyfrifol am y maes pe caiff ei osod yn y brif ffrwd. Roedd hwn yn fater y byddai’r Pwyllgor yn ei drafod yn fanylach. Byddai angen i’r Awdurdod adrodd yn ôl i’r pwyllgor ar y maes hwn maes o law.

- Roedd angen i’r Awdurdod ddeall beth fyddai ei swyddogaeth o ran ariannu Amcan 1 a 3 yn well a byddai arno angen arweiniad ynglþn â hyn gan y Cynulliad.

- Roedd yr Awdurdod wedi derbyn arweiniad strategol manwl ar gyfer eleni wedi i’r asiantaethau uno. Roedd yn trafod gyda’r swyddogion pa mor fanwl y byddai raid i’r manylion fod yn y dyfodol.

- Ynglþn â thargedau, roedd y WDA yn cydnabod yr angen i symud tuag at fesurau mwy ystyrlon, ac roedd yn well ganddo Gynnyrch Domestig Crynswth. Roedd targedau yn cael eu pennu ar gyfer pob swyddfa ranbarthol.

- Ar hyn o bryd nid yw'r Awdurdod yn monitro hyd bywyd swyddi a grëir, na lefelau cyflog ar sail gwahanol sectorau, dynion/merched, er bod astudiaeth wedi dangos ym 1995 bod lefel cyflogau cwmnïau tramor yn £20,800 ar gyfartaledd o'i gymharu â £18,600 ar gyfer cwmnïau Prydeinig. Roedd cynhyrchiant hefyd yn uwch.

- Cyfeirir mwy o arian at fusnesau brodorol, o'i gymharu â buddsoddiad mewnol, ers yr ad-drefnu. Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y staff a oedd yn cynorthwyo ac yn cynghori cwmnïau brodorol.

- Roedd potensial am orgyffwrdd sylweddol wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer busnesau. Roedd hwn yn faes oedd angen ystyriaeth bellach gan y WDA a'r Pwyllgor fel ei gilydd.

- Ni wasanaethir mentrau micro gan y WDA ar hyn o bryd. Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o'u harwyddocâd, ond o ystyried ar ba raddfa y byddai angen twf pe bai Cymru i gyrraedd y targedau Cynnyrch Domestig Crynswth presennol, mae angen agwedd fwy radicalaidd a chynhwysfawr yn cynnwys pob sector.

***Crynodeb y Cadeirydd***

6.6 Y Cadeirydd:

Diolchodd y Cadeirydd i'r WDA am ei gyfraniad a nododd ei bod yn edrych ymlaen i sefydlu perthynas gynhyrchiol â'r Awdurdod.

Roedd yn cydnabod yr anawsterau a wynebir gan yr Awdurdod yn nhermau cynllunio o ystyried yr angen i seilio blaenoriaethau ar y rheini sy'n deillio o'r NEDS.

Dywedodd bod angen bod yn fwy agored ynglþn â'r mathau o fusnesau y dylai economi Cymru fod yn eu meithrin, ac edrych ar y sefyllfa o safbwynt tymor hir.

Tynnodd sylw at yr anawsterau cynhenid mewn cyflawni targedau sy'n seiliedig ar Gynnyrch Domestig Crynswth, a chwrdd â gofynion cynaliadwyedd ar yr un pryd.

**7. Eitem 5 yr Agenda: Ystyried y Gyllideb**

7.1 Amcan yr eitem oedd cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwariant y byddai'r Cadeirydd yn eu hanfon at yr Ysgrifennydd Cynulliad fel ei fod ef yn gallu eu cyfleu yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Cyllid erbyn y dyddiad cyflwyno ar 24 Medi.

7.2 Mynegwyd pryder gan nifer o aelodau'r Pwyllgor nad oedd papurau y gofynnwyd amdanynt mewn cyfarfodydd blaenorol i'w cynorthwyo wrth ystyried y gyllideb, wedi cael eu darparu. A hynny serch ymrwymiad i'w darparu a gofnodwyd yng nghofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 14 Gorffennaf. Teimlai rhai aelodau fod absenoldeb y papurau hyn yn amharu ar eu gallu i gyfrannu'n synhwyrol at y ddadl ar y gyllideb.

7.3 Roedd y Cadeirydd yn cydnabod yr anawsterau a achoswyd gan yr esgeulustod, gan ymddiheuro wrth y Pwyllgor ac addo sicrhau y byddai'r papurau a enwyd uchod ar gael i aelodau ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn dal i allu trafod ei flaenoriaethau heb gyfeirio at yr union symiau dan sylw. Byddai gan y Pwyllgor ragor o gyfleoedd i drafod ariannu rhaglenni Ewropeaidd.

7.4 Gofynnodd y Cadeirydd am bapur briffio ar Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a fyddai'n cynorthwyo aelodau wrth iddynt ystyried yn fanwl hyblygrwydd o fewn y gyllideb. Addawodd swyddogion ddarparu hwn.

7.5 Cafwyd peth trafodaeth ynghylch sefydlu banc datblygu. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad bod proses ymgynghori ar y gweill i ganfod sylwadau ar y ffyrdd gorau o ddarparu ar gyfer busnesau mân, bach a chanolig eu maint.

7.6 Wrth drafod y blaenoriaethau yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu gwneud yn hysbys i'r Ysgrifennydd Cyllid, cytunwyd y dylid cyfeirio at:

- Angen y Pwyllgor i fod yn gwbl fodlon y byddai cyllid digonol ar gael i fodloni gofynion Amcanion 1, 2 a 3 yn arbennig yn y tair blynedd gyntaf, fel na fyddai oedi wrth ei roi ar waith.

- Yr angen i flaenoriaethu cymorth ar gyfer busnesau brodorol gan gynnwys darparu cyllid ar gyfer mentrau mân, bach a chanolig

- Y bwriad i barhau â'r arfer presennol mewn cysylltiad â'r RSA na fyddai grant yn cael ei wrthod i unrhyw gwmni am resymau cyllidebol, ac y gellid bodloni'r holl rwymedigaethau presennol.

- Dylid adolygu'r arian sydd yn y gyllideb ar gyfer Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a dylid rhoi blaenoriaeth isel iddo.

***Crynodeb y Cadeirydd***

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cynulliad, gan nodi'r blaenoriaethau a gytunwyd gan y Pwyllgor a cheisio sicrhad pendant y byddai'r gofynion cyllid yn cael eu bodloni.

***Gweithredu***

***Swyddogion***

I ddarparu papurau ar y canlynol:

- Dyrannu adnoddau Amcan 1 o fewn y DU

- Dadansoddiad o'r ffordd y rhagwelir y bydd gwariant EDRF yn cael ei rannu rhwng

rhaglenni hen a newydd

- Dadansoddiad o'r arian a fyddai'n cael ei ddarparu ar gyfer Corfforaeth Datblygu Bae

Caerdydd ar ôl iddi gael ei dirwyn i ben

**8. Eitem 3: Trafodaeth Gychwynnol ar Adroddiad ETAG**

8.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem gan egluro mai ei hamcan ar gyfer y cyfarfod hwn oedd, yn syml, penderfynu pwy y dymunai'r Pwyllgor eu gwahodd i roi tystiolaeth ar yr adroddiad.

8.2 Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor geisio sylwadau mudiadau neu arbenigwyr allai fabwysiadu safbwynt gwrthrychol o argymhellion ETAG.

**9. Eitem 6: Cofnodion cyfarfodydd ar 14 Gorffennaf a 26 Gorffennaf**

9.1 Dangosodd y Cadeirydd ei bwriad i ystyried y cofnodion ar ddechrau cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

***Cofnodion 14 Gorffennaf***

9.2 Nodwyd bod dadl lawn i ddigwydd ar ddiwedd y mis ac nad oedd y papur y cyfeiriwyd ato yng nghofnodion 14 Gorffennaf ar ymgynghori â busnes, wedi'i gyflwyno. Felly, ni fyddai aelodau yn cael y cyfle i drafod y mater cyn y sesiwn lawn.

9.3 Ymrwymodd Mr Derek Jones i ddosbarthu cynigion diwygiedig i aelodau ar gyfer ymgynghori â busnes cyn gynted â phosibl.

9.4 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n bosibl ychwanegu'r mater hwn at yr agenda pe bai pryder gwirioneddol ymhlith aelodauynglþn â'r cynigion, er bod yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf yn hir dros ben.

***Gweithredu***

***Swyddogion***

9.5 Mr Derek Jones i ddosbarthu'r cynigion ar gyfer ymgynghori â busnes.

***Cofnodion 26 Gorffennaf***

9.6 Roedd ffigurau ar gyfer cyllid Amcan 1 a 2 i'r Cymoedd wedi'u hepgor o dudalen 6 y cofnodion.

9.7 Cyfeiriai tudalen 10 y cofnodion at fap Ardaloedd sy'n derbyn Cymorth. Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod yr eitem wedi'i symud i gyfarfod diweddarach.

9.8 Cytunodd y Cadeirydd i hysbysu'r Pwyllgor ymlaen llaw pryd bynnag y câi newidiadau o'r natur hon eu hargymell. Yn y cyd-destun hwn, fe gadarnhaodd ei bwriad o ohirio ystyried cyfraniad y sector preifat i Amcan 1 i gyfarfod diweddarach.

***Gweithredu***

***Ysgrifenyddiaeth***

Diwygio tudalen 6 y cofnodion i gynnwys ffigyrau ar gyfer y Cymoedd

***Sylwadau'r Cadeirydd ar ddiwedd y cyfarfod***

9.10 Cyhoeddodd y Cadeirydd fod cyfres o gyfarfodydd briffio yn cael eu trefnu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor. Trefnwyd y cyntaf gan BT a'r TUC ar 24 Medi. Byddai manylion y rhaglen yn cael eu dosbarthu yn fuan. Croesawodd aelodau'r Pwyllgor y cynnig.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor 16 Medi 1999**